# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

# rhwng

# Gweinidogion Cymru

# ac

# Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref

**01 June 2023**

**Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth**

Y cyfranogwyr yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw:

**(1) Gweinidogion Cymru**; a

**(2) Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref**

(gyda'i gilydd “y Cyfranogwyr”).

## 1. Y cefndir

Cyflwynwyd y Bil Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus (“y Bil”) gerbron Senedd y DU ar 15 Mehefin 2022.

Mae’r Bil yn gwneud darpariaeth yn y meysydd a ganlyn:

a) Mae Cymal 1 yn darparu i’r drosedd newydd o achosi aflonyddwch, dychryn neu ofid bwriadol oherwydd rhyw gael ei mewnosod yn Neddf Trefn Gyhoeddus 1986.
b) Mae Cymal 2 yn darparu bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ddyroddi a chyhoeddi canllawiau i'r heddlu ac awdurdodau eraill a gedwir yn ôl ynglŷn â'r drosedd, ac yn benodol gynnwys canllawiau ynghylch yr amddiffyniad ymddygiad rhesymol yn adran 4A(3)(b)[1] o Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986.
c) Mae Cymal 3 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Gwylwyr Pêl-droed 1989, Deddf yr Heddlu 1997 a Deddf Etholiadau 2022 o ganlyniad i greu'r drosedd yng Nghymal 1.
d) Mae Cymal 4 yn cadarnhau rhychwant, cychwyn a theitl byr y Bil.

Mae'r Bil, fel y'i diwygir, yn ymestyn i Gymru a Lloegr (mae gan y diwygiadau canlyniadol yng Nghymal 3 yr un rhychwant â'r ddarpariaeth a ddiwygir). Mae Cymalau 1, 3 a 4 (i'r graddau y maent yn ymwneud â chychwyn Cymalau 1 a 3) yn gwneud darpariaeth berthnasol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Ar 17 Ebrill 2023, gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil.

Mae Cymal 4(3) o'r Bil yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud offeryn statudol sy'n pennu dyddiad cychwyn Cymalau 1, 2 a 3 o'r Bil. Mae Cymal 4(4) yn caniatáu penodi dyddiadau gwahanol at ddibenion gwahanol.

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi'r broses i'r Cyfranogwyr gytuno ar y dyddiad cychwyn ar gyfer Cymalau 1 a 3 ("y Darpariaethau Perthnasol") o’r Bil.

[1] Adran 4A(3) Mae'n amddiffyniad i'r cyhuddedig brofi— (b)bod ei ymddygiad yn rhesymol.

## 2. Gweithredu’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno i:

- Ysgrifennu at Weinidogion Cymru a chynnig dyddiad cychwyn ar gyfer y Darpariaethau Perthnasol cyn arfer y pwerau o dan y Bil i wneud offeryn statudol sy'n penodi dyddiad cychwyn ar gyfer y Darpariaethau Perthnasol.

- Rhoi amser rhesymol i Weinidogion Cymru ymateb i'r dyddiad cychwyn arfaethedig cyn gwneud unrhyw offeryn statudol sy'n penodi dyddiad cychwyn ar gyfer y Darpariaethau Perthnasol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cytuno i:

- Ymateb o fewn amser rhesymol a naill ai gytuno i'r dyddiad cychwyn arfaethedig neu gynnig dyddiad cychwyn amgen ar gyfer y Darpariaethau perthnasol.

Mae'r Cyfranogwyr yn cytuno:

- Nad yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn rhwymo’r Cyfranogwyr mewn cyfraith.

- Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn dod i rym ar y dyddiad pan fydd y ddau Gyfranogwr wedi llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a bydd yn parhau i fod yn effeithiol hyd nes y daw'r Darpariaethau Perthnasol i rym.

- Os yw Gweinidogion Cymru yn cynnig dyddiad cychwyn amgen ac nad yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno ag ef, bydd y Cyfranogwyr yn trefnu cyfarfod rhwng swyddogion i drafod a cheisio cytuno ar ddyddiad cychwyn addas.

I dystio, paratowyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn Gymraeg a Saesneg ac ar ôl iddo gael ei gwblhau rhaid i bob un o’r Cyfranogwyr gadw copi.

**[Ar gyfer Gweinidogion Cymru]**

**Llofnodwyd:**

**Enw:** **Dyddiad:**

**[Ar gyfer Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref]**

**Llofnodwyd:**

**Enw:** **Dyddiad:**